WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Dinas Casnewydd**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1336A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Dinas Casnewydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones, yn cael ei reoli gan Non Jenkins, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar ein holl argymhellion blaenorol a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella; fodd bynnag, mae agweddau ar rai yn dal heb gael sylw llawn.


Adroddiad cryno 4

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 a chynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014 6

# Adroddiad cryno

## Cryno

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod y Cyngor wedi gweithredu ar ein hargymhellion cenedlaethol blaenorol a'n cynigion lleol ar gyfer gwelliannau i drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** (Gorffennaf 2015)[2].

2 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod mis Mai 2019. Darparodd y Cyngor hunanasesiad o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn 2014 a 2015. Darparodd y Cyngor ddogfennau i ategu ei hunanasesiad. Wedyn fe gyfwelom ni â swyddogion allweddol a'r aelod arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol.

3 Mae ein hadolygiad wedi bod yn gyfyngedig i adolygu hunanasesiad y Cyngor o'i gynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol a'm cynigion blaenorol ar gyfer gwella. Nid ydym wedi profi effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r Cyngor yn ymarferol fel rhan o'r adolygiad hwn.

### Yr hyn a ganfuom

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A all y Cyngor ddarparu sicrwydd ei fod wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014-15?

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae'r Cyngor wedi gweithredu ar ein holl argymhellion blaenorol a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella; fodd bynnag, mae agweddau ar rai yn dal heb gael sylw llawn.

6 Mae'r Cyngor o'r farn bod diogelu'n faes pwysig o ran ei weithgarwch corfforaethol a'i ethos yw bod 'diogelu yn ein cynnwys ni i gyd'. Mae'r Cyngor wedi gweithredu i fynd i'r afael â'n holl argymhellion blaenorol, ond nid yw wedi rhoi sylw llawn i'r argymhellion cenedlaethol blaenorol a nodir yn y tabl isod. Mae Arddangosyn 2 a

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Casnewydd**, Hydref 2014

[2] **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, Gorffennaf 2015

ganlyn yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran rhoi pob argymhelliad cenedlaethol a'r holl cynigion lleol ar gyfer gwella ar waith.

### Arddangosyn 1: argymhellion cenedlaethol nad ydynt wedi cael sylw llawn eto

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion cenedlaethol nad yw'r Cyngor wedi rhoi sylw llawn iddynt eto.

| **Argymhellion cenedlaethol nad ydynt wedi cael sylw llawn eto** | |
|---|---|
| **A3** | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. |
| **A4** | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |
| **A6** | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. |

# Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 a chynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014

## Arddangosyn 2: asesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion cenedlaethol

Mae'r tabl isod yn nodi ein hasesiad ni o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion cenedlaethol a chynigion lleol ar gyfer gwella.

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A1** Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>1. penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>2. penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>3. dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn**<br><br>Mae'r Cyngor wedi penodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel y swyddog arweiniol sy'n atebol am ddiogelu Corfforaethol. Mae'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr i godi proffil diogelu a sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i bolisi Diogelu Corfforaethol.<br><br>Caiff y rolau a'r cyfrifoldebau hyn eu diffinio a'u deall yn glir ar lefel wleidyddol, lefel uwch reolwyr a lefel weithredol. Caiff y rolau hyn eu nodi'n glir yn Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2019. Caiff gwybodaeth am y cyfrifoldebau hyn ei rhannu gyda chyflogeion ar y tudalennau ar fewnrwyd y Cyngor sydd wedi'u neilltuo i ddiogelu. Mae'r tudalennau hynny ar y fewnrwyd yn hygyrch iawn ac yn cael blaenoriaeth uchel gan eu bod wedi'u lleoli ochr yn ochr â chynlluniau Corfforaethol a Llesiant y Cyngor. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A1** Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>1. penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>2. penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>3. dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn**<br><br>Mae'r Cyngor yn gosod gwybodaeth am rolau'r swyddog ac aelod arweiniol ar ei fewnrwyd ar gyfer staff. Mae hefyd yn lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd i staff trwy'r e-bost a thrwy ei hyrwyddwyr diogelu ar draws pob maes gwasanaeth i'r aelodau o staff hynny a all fod â mynediad cyfyngedig neu heb fynediad at y fewnrwyd.<br><br>Gallai'r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:<br>• sicrhau bod rolau'r swyddog arweiniol a'r aelod arweiniol yn cael eu cynnwys yn glir yn ei bolisi Diogelu Corfforaethol pan gaiff ei ddiweddaru nesaf;<br>• sicrhau ei fod yn cyfleu enwau a rolau swyddogion ac aelodau arweiniol dros ddiogelu corfforaethol i wirfoddolwyr a chontractwyr; a<br>• sicrhau bod gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am ddiogelu ar gyfer y cyhoedd. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 2**<br><br>Dylai'r Cyngor egluro pwy yw'r swyddogion dynodedig â chyfrifoldeb am ddiogelu. | **Gweler y naratif uchod** |
| **A2** Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn**<br>Mae gan y Cyngor bolisi corfforaeth gyfan ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed sy'n cwmpasu holl feysydd gwasanaeth y Cyngor, ac sy'n gymwys i'r holl aelodau etholedig, cyflogeion, gwirfoddolwyr a chontractwyr.<br>Dull y Cyngor yw bod 'diogelu'n ein cynnwys ni i gyd'.<br>Cafodd y polisi ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2018 ac mae'n cael ei adolygu bob dwy flynedd, oni bai bod deddfwriaeth yn golygu ei bod yn ofynnol gwneud newidiadau ar fwy o frys. Mae'r polisi'n diffinio'n glir beth sy'n gyfystyr â cham-drin. Mae'r polisi'n cwmpasu'r diffiniadau o ddiogelu a sut yr effeithir ar ddiogelu gan ystod eang o faterion cysylltiedig, gan gynnwys masnachu pobl a chamfanteisio'n rhywiol.<br>Mae'r polisi'n cysylltu'n glir â pholisi disgyblu'r Cyngor, a cheir disgwyliad clir bod gan bawb sydd wedi'u cynnwys yn y polisi gyfrifoldeb i hysbysu ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt ac a allai effeithio ar ddiogelu plant.<br>Mae gan dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor eitem sefydlog ar yr agenda sy'n ymwneud â diogelu ac mae hyn yn helpu i ddarparu arweiniad clir ynghylch diogelu ar y lefel uchaf ymhlith swyddogion.<br>Er mwyn cynyddu ymhellach yr ymwybyddiaeth bod diogelu'n cynnwys pawb, fe benododd y Cyngor Hyrwyddwyr Diogelu ym mhob maes gwasanaeth ar ddiwedd 2018. Eu rôl hwy yw sicrhau bod pwnc 'diogelu' yn cael ei amlygu ym mhob maes gwasanaeth yn y Cyngor a sicrhau bod y neges bod 'diogelu'n cynnwys pob un ohonom' yn cael ei lledaenu'n rheolaidd i'r holl gyflogeion.<br>Dylai'r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:<br>• sicrhau bod Hyrwyddwyr Diogelu yn cael y cymorth a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni eu rôl. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 1**<br>Datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n nodi'n glir y rolau, y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu. | **Gweler y naratif uchod** |
| **A3** Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>1. sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>2. creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>3. mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br>Mae'r Cyngor wedi gweithredu i gryfhau'r modd y mae'n recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel. Mae gan y Cyngor gyfres o bolisïau a gweithdrefnau sy'n gymwys i'r holl feysydd gwasanaeth ac yn tanategu ei arfer diogelach o ran recriwtio staff gan gynnwys polisi eglur ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chanllawiau recriwtio gwirfoddolwyr. Mae rhai o'r polisïau hyn yn rhagddyddio'r Polisi Diogelu Corfforaethol a byddai o fudd eu diweddaru i adlewyrchu'r polisi hwnnw. Trefnir bod polisïau'r Cyngor ar gael i gyrff llywodraethu ysgolion eu mabwysiadu<br><br>Mae'r pecyn cymorth hunanarfarnu diogelu i ysgolion yn casglu gwybodaeth am recriwtio staff yn ddiogel ac mae adolygiadau archwilio mewnol cyfnodol rheolaidd o recriwtio diogel yn cael eu cynnal yn yr holl ysgolion. Er nad oes gofyniad cenedlaethol i gael gwiriad newydd bob tair blynedd, mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn adolygu pa mor aml y mae'n ofynnol i staff ysgolion adnewyddu eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn adolygu ei safbwynt polisi ar y mater hwn yn ddiweddarach yn 2019.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd wedi rhoi polisi recriwtio diogelach trosfwaol ar waith sy'n darparu arweiniad defnyddiol i reolwyr sy'n penodi ac yn nodi'n glir beth yw disgwyliadau'r Cyngor. Mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn rhoi cymorth parhaus ar gyfer recriwtio i reolwyr sy'n penodi. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A3** Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>1. sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>2. creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>3. mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Mae'r Cyngor wedi adolygu swyddi'r holl gyflogeion i ganfod a yw'n ofynnol cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd ac, os felly, ar ba lefel. Polisi'r Cyngor yw peidio â defnyddio gwiriadau sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ond yn hytrach ei gwneud yn ofynnol cael naill ai gwiriad Safonol neu wiriad Manylach a gwirio rhestrau gwahardd ar gyfer swyddi perthnasol. Mae gan y Cyngor system integredig i gofnodi a monitro cydymffurfiaeth â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae'r system honno'n galluogi cyflogeion i gael negeseuon atgoffa i adnewyddu eu gwiriadau. Polisi'r Cyngor yw bod cyflogeion yn cael gwiriad newydd bob tair blynedd. Mae contractau fframwaith y Cyngor gydag asiantaethau cyflogaeth yn sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cynnal gan yr asiantaethau hynny ac mae'r Cyngor yn gwirio'r gwiriadau hynny pan gyflogir staff asiantaeth.<br>Mae'r Cyngor yn mynnu bod sefydliadau partner a chontractwyr yn gweithredu arferion recriwtio diogel ac mae ganddo drefniadau cadarn i fonitro recriwtio diogel yn y gwasanaeth addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom;<br>• nad oes system ganolog gan y Cyngor i gofnodi prosesau recriwtio gwirfoddolwyr; a<br>• bod y Cyngor yn cydnabod y gallai sicrhau dull mwy cyson o geisio sicrwydd gan gontractwyr mewn perthynas â recriwtio diogel ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Nid yw'r Cyngor yn darparu rhaglen o hyfforddiant rheolaidd i reolwyr sy'n penodi ar hyn o bryd mewn perthynas â recriwtio diogel.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad cenedlaethol hwn yn llawn. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd geisio;<br>• adolygu ei ganllawiau recriwtio gwirfoddolwyr i gryfhau cyfeiriadau at ddiogelu;<br>• adolygu sut y gall ddwyn gwybodaeth ynghyd i'w sicrhau ei hun ynglŷn â recriwtio gwirfoddolwyr yn ddiogel; a<br>• sicrhau dull cyson ar draws yr holl feysydd gwasanaeth o geisio sicrwydd gan gontractwyr ynglŷn â recriwtio diogel. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A4** Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>1. sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>2. creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>3. mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau etholedig yn hanfodol i weithredu ei ethos bod 'diogelu'n ein cynnwys ni i gyd' ac mae'n gwneud hyfforddiant yn orfodol ar gyfer staff ac aelodau etholedig. Mae ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu wedi'i chynnwys fel rhan ofynnol o raglenni sefydlu Corfforaethol ar gyfer cyflogeion newydd, ac yn 2018-19, cwblhaodd 137 aelod o staff yr hyfforddiant hwn. Mae cynnwys yr hyfforddiant hwn ar ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu yn gryno ac yn cynnwys egwyddorion sylfaenol diogelu ac felly'n darparu ymwybyddiaeth gychwynnol dda o'r pwnc hwn ar gyfer staff newydd.<br>Mae cyflogeion y gall fod arnynt angen hyfforddiant diogelu ychwanegol i gyflawni eu rolau'n gallu cael mynediad at hyfforddiant a ddarperir trwy Fwrdd Diogelu Gwent.<br>Mae swyddog arweiniol y Cyngor ar gyfer diogelu mewn addysg yn darparu cyflwyniadau i ysgolion i sicrhau negeseuon cyson ar gyfer diogelu mewn ysgolion. Mae uwch staff dynodedig mewn ysgolion yn cael hyfforddiant diogelu penodol yn rheolaidd ac mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei estyn i lywodraethwyr diogelu dynodedig hefyd. Mae'r swyddog arweiniol yn casglu data gan yr holl ysgolion am yr hyfforddiant y mae uwch staff dynodedig ar gyfer diogelu wedi'i gwblhau ac am sesiynau hyfforddi staff cyfan.<br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol:<br>• er bod y Cyngor yn gwneud hyfforddiant diogelu'n ofynnol ar gyfer yr holl staff, mae yn y broses o ddatblygu modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu i'w gwblhau gan yr holl gyflogeion. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y modiwl hwn ar gael o ddechrau tymor yr hydref 2019. Wedyn bydd yr hyfforddiant hwn yn ofynnol ar gyfer yr holl gyflogeion ac aelodau etholedig yn unol â pholisi'r Cyngor. Mae gan y Cyngor gynlluniau i sicrhau bod staff heb fynediad at gyfrifiaduron yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu. Bydd y Cyngor yn tracio ac yn monitro'r nifer sy'n cwblhau'r hyfforddiant diogelu trwy ei gronfa ddata adnoddau dynol ar-lein. Fodd bynnag, dim ond cyflogeion a gwmpesir gan hyn.<br>• mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu datblygu fframwaith hyfforddiant diogelu haenog ar gyfer yr holl gyflogeion a gwirfoddolwyr a fydd yn nodi'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer eu rolau.<br>• mae'n ofynnol i aelodau etholedig gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. Mae Uned Diogelu Corfforaethol y Cyngor wedi darparu sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig yn 2017 ac mae sesiwn bellach yn yr arfaeth ar gyfer Gorffennaf 2019.<br>• mae'r Cyngor yn nodi yn ei drefniadau cytundebol gyda gwasanaethau a gomisiynir bod disgwyl i staff perthnasol mewn sefydliadau partner a gomisiynir i weithio i'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc gwblhau hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai gryfhau ei drefniadau sicrwydd o ran lefel yr hyfforddiant y mae staff perthnasol yn ei gael. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| **A4** | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>1. sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>2. creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a d<br>3. mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad cenedlaethol hwn yn llawn. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor geisio;<br>• rhoi ei fframwaith hyfforddiant diogelu ar waith ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr ac ystyried sut y bydd hwn yn cael ei gymhwyso i wasanaethau a gomisiynir i sicrhau ei fod yn cael mwy o sicrwydd ar draws yr holl wasanaethau a gomisiynir mewn perthynas â hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff perthnasol;<br>• cadarnhau a ddylai'r holl aelodau etholedig gael hyfforddiant diogelu gorfodol;<br>• egluro'r amserlen y mae'n disgwyl i'r holl gyflogeion gydymffurfio â hi o ran cwblhau'r modiwl e-ddysgu hyfforddiant diogelu sylfaenol cychwynnol;<br>• egluro pa mor aml y bydd hyfforddiant diogelu sylfaenol yn cael ei ddiweddaru; a<br>• monitro cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant diogelu sylfaenol ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ac adrodd ar ddata mewn adroddiadau diogelu corfforaethol blynyddol. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 4**<br>Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddiogelu. Dylai hyn gynnwys gwirfoddolwyr hefyd. | **Gweler y naratif uchod** |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A6** Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran<br>• cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br>Mae cyfarwyddwr arweiniol y Cyngor ar gyfer diogelu wedi cyflwyno dau adroddiad Diogelu Corfforaethol i'r pwyllgor rheoli Trosolwg a Chraffu. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu i ddarparu sicrwydd ar gyfer aelodau etholedig ynghylch gweithrediad polisi a gweithdrefnau diogelu'r Cyngor. Mae'r Cabinet yn cael y canfyddiadau sy'n deillio o waith y pwyllgor craffu i ystyried yr adroddiad.<br>Mae'r adroddiad yn cynnwys casgliadau adolygiadau arolygu/archwilio mewnol ac allanol lle y bo'n berthnasol, ac roedd adroddiad Ebrill 2019 yn cyfeirio at ganfyddiadau Estyn mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau diogelu'r Cyngor yn ystod arolygiad y gwasanaeth addysg ym mis Tachwedd 2018.<br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol;<br>• ar hyn o bryd, nid yw'r adroddiad Diogelu Corfforaethol yn adlewyrchu'r ystod sylweddol o weithgarwch diogelu y mae'r Cyngor yn ei gyflawni;<br>• nid yw'r adroddiad yn cynnwys data o flynyddoedd blaenorol i alluogi'r darllenydd i ddeall perfformiad cymharol, er bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi argymell yn 2019 y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys y data hwnnw;<br>• nid yw'r adroddiad yn cynnwys set o wybodaeth am berfformiad sy'n gytbwys ac yn cwmpasu'r Cyngor cyfan fel a argymhellwyd yn flaenorol gan nad yw'n cynnwys;<br>  – data perfformiad seiliedig ar wasanaethau; na<br>  – gwybodaeth am berfformiad contractwyr neu wasanaethau a gomisiynwyd oni bai bod materion yn cael eu hadnabod trwy Archwilio Mewnol neu arolygu.<br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad cenedlaethol hwn yn llawn.<br>Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at;<br>• sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno dros amser fel bod darllenwyr yn gallu deall newidiadau mewn perfformiad diogelu;<br>• sicrhau y darperir data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• sicrhau yr adroddir yn glir ar ddata ynghylch hyfforddiant a recriwtio diogel, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon, ar gyfer cyflogeion a gwirfoddolwyr; a<br>• sicrhau yr adroddir ar berfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 3**<br>Gwella ystod, ansawdd a chwmpas adroddiadau ar berfformiad diogelu ar gyfer aelodau i ddarparu sicrwydd digonol bod trefniadau corfforaethol yn gweithio'n effeithiol. | **Gweler y naratif uchod** |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| **A7** | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor<br>. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn**<br>Mae gan y Cyngor raglen dreigl wedi'i chynllunio o adolygiadau archwilio mewnol sy'n canolbwyntio ar arferion diogelu'r Cyngor. Mae gan y gwasanaeth archwilio mewnol gynllun clir i adolygu agweddau ar ddiogelu corfforaethol dros y pedair blynedd ariannol nesaf. Fe gwblhaodd y gwasanaeth archwilio mewnol adolygiad o drefniadau Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn ystod gwanwyn 2018. Darparodd yr adolygiad hwnnw sicrwydd rhesymol ac fe adnabu rai meysydd yr oedd angen eu gwella gan gynnwys:<br>• adolygu polisïau'r Cyngor i sicrhau bod y rhain yn cyfeirio at aelodau, partneriaid a chontractwyr a chyhoeddi'r rhain ar wefan y Cyngor;<br>• nid yw'r holl staff newydd a benodwyd wedi cwblhau'r hyfforddiant sefydlu corfforaethol; ac<br>• ni oedd hyfforddiant diogelu cyffredinol wedi'i nodi fel gofyniad gorfodol ar gyfer yr holl staff ac nid oedd ar gael<br>Canfuom fod y Cyngor eisoes wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd hyn ar gyfer gwella gyda chynlluniau clir ar waith i fynd i'r afael â'r materion a oedd yn dal heb gael sylw.<br>Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried agweddau ar ddiogelu, gan gynnwys recriwtio diogelach mewn perthynas â staff yn ystod ei archwiliadau o sefydliadau, gan gynnwys ysgolion.<br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol:<br>• nid oes proses wedi'i sefydlu ar hyn o bryd y gellir ei defnyddio i rannu unrhyw feysydd i'w datblygu mewn perthynas â diogelu gyda'r swyddogion arweiniol ar gyfer Diogelu Corfforaethol. Er bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu trefniadau recriwtio diogel mewn perthynas â staff fel rhan o'r archwiliadau o sefydliadau ar gyfer ysgolion, nid yw cwmpas yr archwiliadau hynny'n ystyried recriwtio diogel mewn perthynas â gwirfoddolwyr na chontractwyr mewn ysgolion.<br>Gallai'r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:<br>• sicrhau, wrth ystyried recriwtio diogelach yn ystod archwiliadau mewnol, bod gwirfoddolwyr a chontractwyr yn cael eu hystyried ochr yn ochr â staff; ac<br>• ystyried sut y gall meysydd i'w datblygu mewn perthynas â diogelu a gaiff eu hadnabod yn ystod archwiliadau mewnol gael eu rhannu gyda'r arweinwyr Diogelu Corfforaethol i lywio hyfforddiant a datblygiad polisïau. |

| Argymhellion cenedlaethol o adroddiad 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o adroddiad 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 5**<br>• Adnabod a chytuno ar raglen briodol o waith archwilio mewnol ar gyfer diogelu. | **Gweler y naratif uchod** |
| **A8** Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn**<br><br>Mae diogelu'n dal i fod wedi'i gynnwys fel un o brif risgiau corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o gamau lliniarol a gaiff eu cofnodi ac sy'n cyd-fynd yn glir â chamau gweithredu sy'n deillio o adolygiad Archwilio Mewnol 2018. Caiff y gofrestr risgiau corfforaethol ei hadolygu'n chwarterol gan y tîm rheoli corfforaethol ac adroddiad arni wrth y Cabinet yn chwarterol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu'n cael sylw yn y Cynlluniau Gwasanaethau Oedolion a Phlant ar gyfer 2018-19. Mae'r Cyngor yn nodi canllawiau clir ei bod yn ofynnol i'r holl feysydd gwasanaeth ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu yn eu prosesau cynllunio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes proses ar waith ganddo ar hyn o bryd i herio'r ystyriaethau hynny i risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar draws pob maes gwasanaeth.<br><br>Dylai'r Cyngor ystyried yr opsiwn canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:<br>• cyflwyno proses gorfforaethol i adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu a adnabuwyd mewn cynlluniau gwasanaethau i sicrhau dull cyson o adnabod risgiau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru